# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Medi 2016

Amser: 09.16 - 15.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3733

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Simon Thomas AC (Cadeirydd)<br>Mike Hedges AC<br>Eluned Morgan AC<br>David Rees AC<br>Neil McEvoy AC<br>Nick Ramsay AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Alistair Brown, Llywodraeth yr Alban<br>Louise Speke, Cymdeithas y Tirfeddianwyr<br>Joy Bailey, y Gofrestrfa Tir<br>Pascal Lalande, y Gofrestrfa Tir |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Catherine Hunt (Ail Glerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |

| | |
|---|---|
| | Lakshmi Narain (Cynghorwr Technegol) |

## 1 09.00 - 09.15 - Rhag-gyfarfod anffurfiol

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Steffan Lewis AC.

2.2 Croesawodd y Cadeirydd Neil McEvoy AC, a oedd yn dirprwyo ar ran Steffan Lewis AC.

2.3 Gwnaeth Neil McEvoy AC ddatganiad o fuddiant, a nododd y byddai'n absennol o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 9.

## 3 Papur(au) i'w nodi:

3.1 Nodwyd y papur.

## 4 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth yr Alban (Cynhadledd Fideo)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth drwy gynhadledd fideo gan Alistair Brown, Cyfarwyddwr Strategaeth Ariannol Llywodraeth yr Alban.

4.2 Cytunodd Alistair Brown i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn egluro:

- pam fod gwir gostau sefydlu Cyllid yr Alban yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol; a
- sut y mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r weithdrefn gadarnhaol dros dro ar gyfer pennu cyfraddau a bandiau treth wedi'u hymgorffori yn Neddf Treth Trafodiadau Tir ac Adeiladau (yr Alban) 2013.

## 5 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Louise Speke, Prif Ymgynghorydd Treth y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad.

5.2 Cytunodd Louise Speke i ddarparu nodyn yn amlinellu barn y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad ar y gwahaniaethau rhwng darpariaethau'r Rheolau a Dargedwyd yn Erbyn Osgoi Treth (TAAR) yn Neddf Treth Dir y Dreth Stamp 2015, a'r Rheolau TAAR sydd wedi'u cynnig yn y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

## 6 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gofrestrfa Tir

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Joy Bailey, Cofrestrydd Tir Cynorthwyol y Gofrestrfa Tir, a Pascal Lalande, Rheolwr Gweithrediadau Canolog y Gofrestrfa Tir.

6.2 Cytunodd y tystion i ddarparu i'r Pwyllgor gopi o'r adroddiad a gomisiynwyd gan y Gofrestrfa Tir ynghylch nifer yr eiddo trawsffiniol sy'n bodoli.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru): Trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 9 Trafod y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) Drafft

9.1 Nododd y Pwyllgor y papur, a chytunodd i ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

## 10 Llythyr gan Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru at y Cadeirydd - Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad, Ebrill 2015 - Mawrth 2016

10.1 Nododd y Pwyllgor Adroddiad Perfformiad Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad, Ebrill 2015 – Mawrth 2016.